Chwarae Cymru Play Wales



# Gwaith chwarae – beth sy’n ei wneud mor arbennig?

www.chwarae.cymru

**Mae gwaith chwarae'n unigryw a gellir ei ddisgrifio fel y grefft o weithio gyda phlant sy'n chwarae. Mae gwaith chwarae yn blentyn-ganolog ac mae'n sicrhau mai chwarae yw'r prif ffocws. Mae gweithwyr chwarae'n hwyluso chwarae plant. Yn 2005, datblygwyd yr Egwyddorion Gwaith Chwarae er mwyn helpu i rannu dealltwriaeth o'r hyn y bydd gweithwyr chwarae'n ei wneud.**

**Ceir wyth o Egwyddorion Gwaith Chwarae. Mae'r ddwy gyntaf yn disgrifio proses a phwysigrwydd chwarae. Mae mwy o wybodaeth am chwarae a'i bwysigrwydd i'w gael ar wefan Chwarae Cymru: www.chwarae.cymru/chwarae**

**Mae Egwyddorion Gwaith Chwarae 3 i 6 yn disgrifio'r modd y bydd gweithwyr chwarae'n hwyluso chwarae plant, ac mae Egwyddorion 7 ac 8 yn disgrifio effaith y gweithiwr chwarae a'i ymyrraeth ar chwarae plant a'r gofod chwarae. Mae'r daflen wybodaeth hon yn archwilio'r Egwyddorion hyn.**

**'Mae'r Egwyddorion Gwaith Chwarae'n sefydlu'r fframwaith proffesiynol a moesegol ar gyfer gwaith chwarae ac o'r herwydd, dylid eu hystyried fel cyfanwaith. Maent yn disgrifio'r hyn sy'n unigryw am chwarae a gwaith chwarae, ac yn darparu'r persbectif gwaith chwarae ar gyfer gweithio â phlant a phobl ifanc. Caiff y rhain eu seilio ar y gydnabyddiaeth y caiff cynhwysedd plant a phobl ifanc i ddatblygu'n gadarnhaol ei gyfoethogi o gael mynediad i'r ystod ehangaf o amgylcheddau a chyfleoedd chwarae.'**

## Egwyddor Gwaith Chwarae 3

Prif ffocws a hanfod gwaith chwarae yw cefnogi a hwyluso'r broses chwarae a dylai hyn hysbysu datblygiad polisi, strategaeth, hyfforddiant ac addysg chwarae.



Mae rôl y gweithiwr chwarae'n unigryw oherwydd y prif reswm dros ei fodolaeth yw er mwyn hwyluso chwarae plant. Mae Sylw Cyffredinol rhif 17 y Cenhedloedd Unedig ar Erthygl 31 yn amlinellu rôl bwysig oedolion wrth roi'r gefnogaeth angenrheidiol i blant wireddu eu hawl i chwarae. Mae'n nodi:

- Gall oedolion gefnogi datblygiad plant trwy gydberthyn â nhw trwy chwarae.
- Bydd oedolion sy'n cyfranogi mewn chwarae plant yn ennill cipolwg ar a dealltwriaeth unigryw o bersbectif plentyn.
- Mae plant yn cael budd o weithgareddau sy'n cynnwys oedolion. Fodd bynnag, mae'r buddiannau hyn yn llai os bydd oedolion yn rheoli'r chwarae, gan danseilio ymdrechion plentyn i drefnu ac arwain eu gweithgareddau chwarae eu hunain.

Mae gwaith chwarae yn delio ag agenda'r plentyn fel y man cychwyn – chwarae. Mae chwarae yn broses, mae'n cael ei gyrru gan y plentyn ar gyfer y plentyn. Mae gweithwyr chwarae yn sicrhau bod y broses chwarae a sut y caiff ei hwyluso'n hysbysu cyfranogaeth mewn polisi chwarae, strategaeth, hyfforddiant ac addysg.

Ni fydd plant sy'n dioddef o ddiffyg cyfleoedd i chwarae yn datblygu i'w llawn botensial. Trosi'r meddwl hyn yn gynllunio, yn bolisi, yn strategaeth, yn addysg a hyfforddiant yw'r modd gorau o sicrhau

ansawdd gwaith chwarae fel proffesiwn, ansawdd trosglwyddiad cyfleoedd chwarae, ac i sicrhau darpariaeth chwarae o safon i bob plentyn.

## Egwyddor Gwaith Chwarae 4

I weithwyr chwarae, bydd y broses chwarae'n cael blaenoriaeth a bydd gweithwyr chwarae'n gweithredu fel eiriolwyr dros chwarae pan yn ymwneud ag agendâu gaiff eu harwain gan oedolion.

Daw chwarae â nifer o fuddiannau ac mae'n ganolog i iechyd a lles corfforol, meddyliol, cymdeithasol ac emosiynol plant. I'r plant eu hunain, chwarae yw un o agweddau pwysicaf eu bywydau. Maen nhw'n gwerthfawrogi amser, rhyddid a mannau o ansawdd i chwarae.

Pan ofynnir beth sy'n bwysig iddyn nhw, bydd plant yn sôn yn gyson am chwarae ac ymgasglu gyda'u ffrindiau[1]. Pan fyddan nhw'n chwarae, mae plant yn cyfrannu at eu lles uniongyrchol ac at eu datblygiad eu hunain.

Mae gweithwyr chwarae yn gwneud eu gorau rhag i'w sylw gael ei dynnu oddi ar eu rôl gyntaf fel gweithwyr chwarae. Mae ffitrwydd, lleihau troseddu ac addysg yn agendâu oedolion pwysig ond nid ydynt yn uniongyrchol bwysig i blant a'u chwarae.

Pan fydd gweithwyr chwarae yn rhyngweithio ag eraill ar unrhyw agenda oedolion, eu rôl nhw yw sicrhau eu bod yn cadw agenda'r plentyn – yr agenda chwarae – ym mlaen pob meddwl.

Os yw gweithwyr chwarae i eiriol dros chwarae plant mae'n hanfodol eu bod yn deall ac yn gallu egluro'r hyn y bydd plant yn ei wneud pan fyddant yn chwarae a sut y gall gweithwyr chwarae gefnogi'r broses honno.

Mae hyn yn hanfodol, oherwydd os byddwn yn caniatáu i agendâu oedolion reoli'r gwaith y bydd gweithwyr chwarae yn ei wneud â phlant, byddant yn llygru'r broses chwarae. Fel oedolion mewn man chwarae plant, rydym eisoes yn effeithio ar y man chwarae hwnnw – ni fydd plant yn chwarae yn union fel y byddent pe na baem yno. Swyddogaeth gweithwyr chwarae yw ceisio sicrhau y caiff plant y cyfle gorau i chwarae mor naturiol ac y byddent pe na bai oedolion yno, ac i ymyrryd cyn lleied â phosibl.

## Egwyddor Gwaith Chwarae 5

Rôl y gweithiwr chwarae yw cefnogi pob plentyn a pherson ifanc i greu man ble y gallant chwarae.

Mae'r man gaiff ei greu i blant chwarae yn hynod o bwysig. Un o elfennau allweddol man chwarae llwyddiannus yw'r ymdeimlad ei fod, a bod popeth fydd yn digwydd ynddo, yn berchen i'r plant.



Mae'n rhaid i blant deimlo fod ganddynt awdurdod i newid ac addasu'r man chwarae, dewis yr hyn sy'n digwydd yno, ac i gael cymaint â phosibl o reolaeth dros y gofod. Mae gweithwyr chwarae'n anelu i ddarparu amgylchedd chwarae cyfoethog ar gyfer plant. Mae amgylchedd chwarae cyfoethog yn amrywiol a diddorol – mae Llywodraeth Cymru'n ei ddisgrifio fel gofod:

'sy'n hyblyg, addasadwy, amrywiol a diddorol. Mae'n mwyafu'r potensial ar gyfer cymdeithasu, creadigedd, dyfeisgarwch, her, a dewis. Mae'n ofod cyhoeddus y mae'r plant yn ymddiried ynddo, ble maent yn teimlo'n rhydd i chwarae yn eu ffordd eu hunain, yn eu hamser eu hunain, ar eu telerau eu hunain'.

Mae Llywodraeth Cymru'n dweud hefyd: 'mae darpariaeth chwarae o ansawdd yn rhoi'r cyfle i bob plentyn ryngweithio'n rhydd â'r canlynol neu i brofi'r canlynol:

- Plant eraill – o oedrannau a galluoedd gwahanol gyda'r dewis i chwarae ar eu pen eu hunain neu gydag eraill, trafod, cydweithio, dadlau, a datrys anghydfodau.
- Y byd naturiol – y tywydd, coed, planhigion, pryfetach, anifeiliaid, mwd.
- Rhannau rhydd – deunyddiau naturiol a synthetig y gellir eu trin a'u trafod, eu symud a'u haddasu, eu hadeiladu a'u chwalu.
- Y pedair elfen – daear, awyr, tân a dŵr.
- Her ac ansicrwydd – cyfleoedd graddol i fentro; ar lefel gorfforol ac emosiynol hefyd.
- Newid hunaniaeth – chwarae rôl a gwisgo i fyny.
- Symud – rhedeg, neidio, dringo, cydbwyso, rholio, siglo, sleidio a throelli.
- Chwarae gwyllt – chwarae ymladd.
- Y synhwyrau – synau, blas, gwead, aroglau a golygfeydd.'



Bydd y posibiliadau o beth all plant ei wneud yn amrywio o leoliad i leoliad. Os bydd y ddarpariaeth yn cael ei rhedeg mewn man gaiff ei rannu ag eraill er enghraifft, gall hyn gyfyngu ar gyfleoedd i roi dewis a rheolaeth i blant, yn enwedig os nad yw'r bobl eraill sy'n rhannu'r lleoliad yn cydymdeimlo â chael plant yn defnyddio'r gofod. Ond, bydd gweithwyr chwarae yn ystyried hyn fel her yn hytrach na chyfyngiad. Gallant fod yn ddyfeisgar: gall dewis adnoddau'n ofalus oresgyn nifer o sefyllfaoedd, fel y gall trafod o ddifrif, ewyllys da a chwrteisi.

## Gofod cydadferol

Mae man chwarae'n fan cydadferol ac mae'n bwysig. Mae'n ofod sy'n gwneud yn iawn am y diffyg amgylchedd chwarae naturiol sydd ar gael i blant oherwydd rhesymau megis ofnau rhieni sy'n codi o ganlyniad i fyw mewn ardal boblog, lefelau uchel o draffig, ofnau ynghylch perygl dieithriaid a chanfyddiad nad yw pobl eraill yn cytuno â chaniatáu i'ch plant fynd allan i chwarae heb oruchwyliaeth.

Mae'r amgylchedd naturiol a gofodau fel coedwigoedd, traethau, gerddi cymunedol ac afonydd yn cefnogi chwarae plant. 'Does dim angen offer chwarae arbenigol o reidrwydd. Mae dŵr, coed a llwyni'n newid gyda'r tymhorau a gall plant eu defnyddio mewn amrywiol ffyrdd, gan gael llawer o bleser o chwarae gyda'r hyn sydd yno'n naturiol. Er mwyn i fan chwarae cydadferol deimlo mor naturiol â phosibl ac i blant gael y rhyddid y maent ei angen i chwarae, bydd angen iddynt deimlo eu bod yn derbyn caniatâd yr oedolion o fewn y gofod hwnnw.



Bydd gweithwyr chwarae yn creu amgylchedd lle mae gan blant reolaeth dros y gofod hwnnw a'r hyn sy'n digwydd ynddo. Po fwyaf o reolaeth sydd gan y plant, y mwyaf yw'r lefel o ganiatâd y byddant yn ei deimlo. Mae pob lle da i chwarae'n cynnig amgylchedd chwarae cyfoethog gyda llawer o werth chwarae ar gyfer pob plentyn.

## Egwyddor Gwaith Chwarae 6

Caiff ymateb gweithwyr chwarae i chwarae plant a phobl ifanc ei seilio ar wybodaeth gyfredol, gref o'r broses chwarae, ac arfer myfyriol.

Mae'r agwedd gwaith chwarae yn un ble y gall plant reoli eu chwarae eu hunain. Bydd gofyn i weithwyr chwarae ymateb i giwiau ac arwyddion all, ar brydiau, fod yn gymhleth ac anniffiniol, a chadw meddwl agored heb ddod i gasgliad byrbwyll neu farnu sefyllfa ymlaen llaw. Yn ogystal â hyn, mae'n bosibl y bydd rhaid taro cydbwysedd â gofynion trefniadol a rheolyddol. Mae hon yn rôl gymhleth i'w meistroli, ac mae'n mynnu ein bod yn onest ynghylch ein cymhellion a'n credau personol.

Mae arfer myfyriol yn caniatáu inni archwilio ein meddyliau a'n teimladau ac i gwestiynu ein barn. Gall defnyddio arfer myfyriol cyn, yn ystod ac ar ôl chwarae helpu gweithwyr chwarae i 'arfer ag egwyddor'.

## Egwyddor Gwaith Chwarae 7

Bydd gweithwyr chwarae'n cydnabod eu heffaith eu hunain ar y man chwarae yn ogystal ag effaith chwarae plant a phobl ifanc ar y gweithiwr chwarae.

Fel oedolion, ein cyfrifoldeb ni yw sicrhau bod plant yn cael yr amser, y lle a'r rhyddid i chwarae. Mae gweithwyr chwarae yn helpu i wneud i hyn ddigwydd.

Mae'n hanfodol bod gweithwyr chwarae yn deall yr hyn y byddant yn ei wneud a sut y bydd hynny'n newid y man chwarae yn ogystal â'r chwarae ei hun, mewn modd cadarnhaol neu negyddol. Mae nifer o agweddau allweddol i berthnasau oedolion â phlant sy'n caniatáu inni gyd leihau ein heffaith ar y man chwarae. Mae'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth yma'n hysbysu arfer pob gweithiwr chwarae.

**Bod yn barchus** – bydd plant yn dewis bod gyda phobl sy'n eu parchu. Mewn darpariaeth chwarae mynediad agored wedi ei staffio bydd plant yn mynychu os yw'r gweithwyr chwarae'n eu parchu, ac er na allant adael o'u dewis eu hunain mewn lleoliad gofal, bydd yn llawer rhwyddach gweithio â'r plant os y dangosir iddynt eu bod yn cael eu parchu. Mae parch yn gweithio'r ddwy ffordd – os yw gweithwyr chwarae am dderbyn parch gan blant bydd raid iddynt ei roi yn ôl.

**Peidio barnu** – nid yw gweithwyr chwarae yn cael eu cyflogi i lunio barn foesol am blant, nac i'w dysgu sut i fyw eu bywydau. Eu rôl yw creu amgylchedd ble y bydd plant yn teimlo'n emosiynol ac yn gorfforol ddiogel. Er mwyn bod yn effeithlon, bydd gweithiwr chwarae angen ymddiriedaeth y plant, er mwyn iddynt deimlo y gallant rannu eu problemau neu eu gofidiau, neu ddim ond gofyn am gyngor. Bydd plant yn amharod i wneud hyn os y credant eu bod yn debyg o gael pregeth neu os y gallai rhywun ystyried eu bod yn berson drwg.



Mae agwedd barchus ac anfarnol yn bwysig oherwydd ei bod yn cefnogi'r egwyddor y gall plant chwarae mewn man sydd mor debyg â phosibl i amgylchedd chwarae naturiol, ble y caiff oedolion cyn lleied o effaith â phosibl. Bydd y rhan fwyaf o blant, o gael y dewis, yn chwarae draw oddi wrth oedolion, a gan amlaf byddant ond yn mynd atynt os y byddant eisiau bwyd neu os y digwydd problem ddifrifol fel anaf neu fwlio. Er mwyn cadw man chwarae mor naturiol â phosibl bydd angen inni ystyried sut y byddai plant yn chwarae'n rhydd mewn amgylchedd dioedolyn.

## Egwyddor Gwaith Chwarae 8

Bydd gweithwyr chwarae'n dewis arddull ymyrryd sy'n galluogi plant a phobl ifanc i ymestyn eu chwarae. Dylai ymyrraeth gweithwyr chwarae bob amser daro cydbwysedd rhwng y risg a'r budd datblygiadol a lles plant.

Mae ymyrraeth gwaith chwarae'n weithred ymwybodol. Er mwyn osgoi mabwysiadu ymateb awtomatig, difeddwl yn gyntaf bydd angen i weithwyr chwarae fod yn effro i ystod o opsiynau ac yna dethol yr agwedd fydd yn fwyaf tebygol o ymestyn y chwarae. Mae'n bosibl iawn y bydd yr agwedd hon yn un annirnad, anymwthgar neu mae'n bosibl y bydd yn cynnwys peidio ymyrryd o gwbl.

Ceir adegau pryd y bydd angen ymyrryd ar unwaith er mwyn atal niwed uniongyrchol neu ddifrifol. Bydd rhaid i niwed fod yn bosibilrwydd gwirioneddol er mwyn gwneud ymyrraeth yn hanfodol, ac nid dim ond oherwydd ofn personol o uchder, er enghraifft. Hyd yn oed wrth ymyrryd mewn sefyllfa o'r fath, gall fod yn bosibl parhau i fod yn chwareus. Mae'r agweddau hyn yn galw am bwyso a mesur buddiannau tebygol cam gweithredu penodol a'u cymharu yn erbyn risgiau posibl er mwyn penderfynu os yw risg sy'n rhan annatod o gyfle chwarae'n werth ei chymryd.

Ers cyhoeddi'r Egwyddorion Gwaith Chwarae, mae agweddau sy'n taro cydbwysedd rhwng risgiau â buddiannau chwarae i blant wedi eu ffurfioli mewn nifer o strategaethau a chanllawiau, gan gynnwys cyngor gan Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch[2].

## Rhestr wirio ar gyfer hwyluso gofod cydadferol

- Nid oes fformiwla. Er mwyn cynnig chwarae cydadferol effeithlon, mae'n rhaid i weithwyr chwarae fod yn sensitif a meddylgar a bod â nodau cwbl eglur.
- Bydd angen i'r modd y caiff man chwarae cydadferol ei osod allan gael ei seilio ar waith ymchwil a dadansoddiad o'r cyfleoedd chwarae sydd ar gael yn yr ardal leol gyda chyfranogaeth y plant a'r arddegwyr.
- Ni ddylai'r gofod gael ei lygru gan agendâu oedolion. Gall gweithwyr chwarae greu cwymp i'w hunain os y bydd ganddynt weledigaeth ddelfrydol o'r hyn all man chwarae fod. Dylent ochel rhag dim ond cyflawni anghenion rhieni ac ysgolion neu anghenion gwleidyddion, a hynny ar draul anghenion chwarae plant.
- Tra bo gan y plant reolaeth dros benderfyniadau a dewisiadau sy'n ymwneud â'u chwarae o fewn y gofod, nid ydynt yn ei redeg nac yn ei staffio.
- Mae angen i'r man fod yn ddigon diogel i blant deimlo bod eu gofod chwarae wedi ei warchod, heb effaith cyffredinol carchar neu sŵ.
- Efallai na fydd man chwarae cydadferol affeithiol yn cydymffurfio â barn gul, ystrydebol o fan chwarae: bydd yn edrych fel y mae'n edrych.
- Efallai y bydd yn fan sy'n gyfan gwbl yn yr awyr agored neu efallai y bydd darpariaeth dan do hefyd – mae hyn yn amherthnasol cyn belled â'i fod yn darparu chwarae cydadferol.
- Bydd man cyffrous, heriol sydd â staff ymroddedig â digon o gefnogaeth sy'n gweithio i'w llawn botensial yn denu rhagor o blant a bydd yn fwy llwyddiannus.

Yn bennaf oll, bydd yn fan ble y rhoddir caniatâd yn ddiamwys ac yn gudd i chwarae.

## Darllen pellach

Am fwy o wybodaeth am yr Egwyddorion Gwaith Chwarae ewch i: www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae/yr-egwyddorion-gwaith-chwarae

Am fwy o wybodaeth am waith chwarae ewch i: www.chwarae.cymru/gwaith-chwarae

Am wybodaeth fanylach am chwarae a gwaith chwarae, darllenwch ein canllawiau gwaith chwarae:

- Mae **Plentyndod, chwarae a'r Egwyddorion Gwaith Chwarae (cyfrol 1)** yn edrych ar rôl chwarae yn ystod plentyndod ac etheg gweithio mewn lleoliadau ble mae plant yn chwarae.
- Mae **Ymarfer gwaith chwarae (cyfrol 2)** yn ddelfrydol ar gyfer pobl sy'n newydd i waith chwarae ac mae'n archwilio sut i ddynodi, creu neu gyfoethogi mannau ar gyfer chwarae.
- Mae **Datblygu a rheoli prosiect gwaith chwarae (cyfrol 3)** yn edrych ar elfennau ymarferol trosglwyddo darpariaeth gwaith chwarae ac mae'n archwilio dyletswyddau rheoli uwch-weithwyr chwarae.
- Mae **Rheoli gweithwyr chwarae a gweithio gydag oedolion eraill (cyfrol 4)** yn edrych ar reoli staff a gweithio gydag oedolion eraill, yn ogystal â delio gyda gwrthdaro, beirniadaeth ac achwynion.

## Cyfeiriadau

[1] Comisiynydd Plant Cymru (2018) *Adroddiad Sbotolau: Erthygl 31*. Abertawe: Comisiynydd Plant Cymru; Dallimore, D. (2019) *'Rwy'n dysgu pethau newydd ac yn dringo coed' Yr hyn sydd gan blant i'w ddweud am chwarae yng Nghymru*, Caerdydd: Chwarae Cymru.

[2] Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (2012) *Chwarae a Hamdden Plant: hyrwyddo agwedd gytbwys*, Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch.

www.chwarae.cymru

Chwarae Cymru yw'r mudiad cenedlaethol dros chwarae plant, elusen annibynnol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru i ddiogelu hawl plant i chwarae ac i gynnig cyngor ac arweiniad ar faterion sy'n ymwneud â chwarae.

Elusen cofrestredig, rhif 1068926

© Chwarae Cymru

Gorffennaf 2024